# YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR

*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*

Mewn undod mae nerth /Stronger together


28/9/2022

Annwyl Rieni/Gofalwyr

Gobeithio bod y noson wybodaeth gan athro eich plentyn wedi bod yn werthfawr i chi gyd. Rwy'n ymwybodol bod salwch covid wedi effeithio ar rai dosbarthiadau a byddwn yn aildrefnu'r noweithiau a ohuriwyd cyn gynted â phosibl.

**Ceisiadau Gwyliau a Phresenoldeb**

Mae nifer fawr o geisiadau gwyliau wedi cyrraedd yn ystod y mis cyntaf hwn. Nawr bod ysgolion yn dychwelyd i ryw fath o normalrwydd, mae ailffocws ar bresenoldeb pob disgybl ysgol.

Mae cysylltiad cryf rhwng cyfraddau presenoldeb a llwyddiant yn yr ysgol ar draws y cwricwlwm. Dengys ymchwil y gall colli 17 diwrnod ysgol y flwyddyn (cyfradd presenoldeb o 91%) arwain at ostyngiad mewn cynnydd ar draws pob maes dysgu a phrofiad.

Ein targed ysgol ar gyfer eleni yw 96%. Er bod yr ysgol a'r sir yn deall bod salwch yn effeithio ar bresenoldeb, gadewir ceisiadau gwyliau awdurdodedig i ddisgresiwn y pennaeth.

Yn dilyn cyfnod o ychydig flynyddoedd aflonyddgar covid, **teimlaf y dylai rhieni feddwl yn ofalus cyn mynd â'u plant ar wyliau yn ystod y tymor.**

Yn aml iawn, mae rhieni'n sôn am fanteision gwyliau i'w plant, ond mae disgyblion sy'n colli rhannau helaeth o'r tymor e.e. methu dechrau'r tymor, yn gallu amharu'n fawr ar les a gallu disgybl i setlo i drefn yn ogystal â'r effaith addysgol a ymgysylltu â'r cwricwlwm. Rhaid rhoi cais am wylie pythefnos cyn mynd.

Wrth wneud penderfyniadau am wyliau awdurdodedig, byddaf yn ystyried yr elfennau hyn:

- Oed y plentyn
- Amser o flwyddyn
- Hyd a phwrpas y gwyliau
- Effaith ar barhad dysgu
- Amgylchiadau'r teulu
- Dymuniadau'r rhieni
- Patrwm presenoldeb cyffredinol
- Cyfnod addysg
- Cynnydd y plentyn
- Unrhyw faterion diwylliannol
- Manteision i'r plentyn
- Unrhyw ganllawiau neu eglurhad a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru neu Weinidogion

Ar eich cais am amser gwyliau – sicrhewch eich bod yn rhoi sylw dyledus i'r paragraff canlynol:


**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**

YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR
*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*
Mewn undod mae nerth /Stronger together

Pe bai eich plentyn yn cyrraedd lefel o absenoldeb anawdurdodedig sy'n dod â'i bresenoldeb o dan 90% yn ystod y flwyddyn, gall yr Awdurdod Lleol (yn dibynnu ar yr amgylchiadau) roi hysbysiad cosb benodedig neu gychwyn erlyniad ffurfiol am fethu â sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol. Mae manylion llawn y cynllun cosb benodedig ar gael ar wefan Dinas a Sir Abertawe.

**Prydlondeb dechrau' dydd**: Sicrhewch fod eich plentyn ar dir yr ysgol erbyn 8.45yb.

**Ysgolion Iach**
Fel ysgol sy'n hybu bwyta'n iach gofynnwn i rieni anfon dŵr a ffrwythau i'r ysgol ar gyfer byrbryd y plant. Rydym hefyd yn ysgol sy'n adnabod alergeddau, felly gofynnwn hefyd os yw rhieni'n anfon pecynnau bwyd i mewn, lle bo'n bosibl, eich bod yn pacio bwyd heb gnau. Sicrhewch fod pecynnau bwyd yn ddeiat gytbwys ac nad oes unrhyw ddiodydd 'pop' na gormod o fwydydd llawn siwgr wedi'u cynnwys. Mae corff o dystiolaeth ar gael sy'n cydnabod y cysylltiad rhwng siwgr ac iechyd a lles (gan gynnwys ymddygiad) plant. Ewch i ganllawiau bocsys cinio iachus gan y GIG: https://www.nhs.uk/healthier-families/recipes/healthier-lunchboxes/

Sgwid
Cofiwch ddefnyddio eich cyfrif sgwid i wneud yr holl daliadau i'r ysgol (heb law am glwb brecwast) gan ein bod yn ysgol heb arian. Cofiwch, ni allwn redeg cyllideb ysgol ddiffygiol ar Squid, felly gwnewch yn siŵr bod yr holl brydau cinio yn cael eu talu ar amser. Bydd unrhyw ddyled a achosir gan rieni yn arwain at daliad yn cael ei gymryd yn uniongyrchol o gyllideb yr ysgol, sydd yn y diwedd yn tynnu cyllid o'r disgyblion.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus.

Yn Gywir




Elin Wakeham

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**